

Adroddiad Blynyddol Fforwm Derbyn 2016-2017

Awdurdod Derbyn: WRECSAM

Ysgrifennydd y Fforwm: Bev Griffith

Manylion cyswllt: bev.griffith@wrexham.gov.uk

Cyfeiriad: Derbyniadau Ysgol, Yr Adran Addysg, 3ydd Llawr, Stryt y Lampint, Wrecsam, LL11 1AR

Aelodaeth a phresenoldeb y Fforwm

Enw	Swydd	Nifer y blynyddoedd ar y Fforwm*	Aelodaeth yn ôl categori (gweler y tabl isod)
Mr John Davies	ALI Wrecsam / Pennaeth Addysg	8 mlynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/P
Mr Dafydd Ifans	ALI Wrecsam/Pennaeth Gwasanaethau Isadeiledd a Chymorth Addysg	8 mlynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/PDG
Mrs Karen Parry	ALI Wrecsam / Swyddog Clwstwr Cynhwysiant	2 flynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/PDG
Ms Paula Parry	Rheolwr Mynediad a Lleoedd Ysgol	3 blynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/PDG
Y Cynghorydd Michael Williams	Aelod Arweiniol Gwasanaethau Plant ac Addysg	5 mlynedd	CYM/L
Mrs Rita Price	Comisiynydd Esgobaethol ar gyfer Ysgolion Catholig	12 mlynedd	C
Sheridan Goody	Yr Eglwys yng Nghymru	3 blynedd	Yr Eglwys yng Nghymru
Mr Simon Ellis	Pennaeth, Ysgolion Sefydledig	6 blynedd	Y/S

		Is-Gadeirydd	
Mr Christopher Wilkinson	Pennaeth, Ysgolion Uwchradd Anglicanaidd a Chatholig	01/11/2016	C
Mrs Nicola Booth	Pennaeth, Ysgol Gymorthedig y Santes Fair, Rhiwabon	7 mlynedd	Y/GW
Mr Carwyn Davies	Pennaeth, Ysgolion Cyfrwng Cymraeg	3 blynedd	Y/CG
Ms Sarah Hurst	Cadeirydd, Pennaeth, Ysgolion Babanod	11 mlynedd	Y/CG
Mrs Maxine Pittaway	Pennaeth, Ysgolion Arbennig	8 mlynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/PDG
Ms Kelly Senior	ALI Gorllewin Caer a Chaer	3 blynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/PDG
Mrs Helen Evans	ALI Sir Ddinbych	4 blynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/PDG
Mrs Gill Yates/Mrs Christine Roberts	ALI Sir y Fflint	12 mlynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/PDG
Mrs Carol Sneddon	ALI Swydd Amwythig	6 blynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/PDG
Mrs Alison Fisher	Rhiant-Lywodraethwr Cynradd	5 mlynedd	RhL
Mr David Edwards	Rhiant-Lywodraethwr Uwchradd	3 blynedd	RhL

***Os ydynt wedi gwasanaethu am fwy na 4 blynedd, dylid cynnwys y dyddiad y cawsant eu hail-ethol.**

Acronymau ar gyfer Aelodau Craidd

Aelodau a Enwebwyd gan	Aelodau Craidd	Acronym
ALI - unrhyw aelod neu swyddog o'r awdurdod	1 i 5	ALI, ALI/AAA, ALI/Plant Sy'n Derbyn Gofal
Cynrychiolwyr Esgobaethol Yr Eglwys yng Nghymru	1 i 3	Yr Eglwys yng Nghymru
Cynrychiolwyr Esgobaethol Catholig Rufeinig	1 i 3	C
Ysgolion - cymunedol a gwirfoddol a reolir	1 i 3	Y/CG
Ysgolion - sefydledig	1 i 3	Y/S
Ysgolion - a gynorthwyir yn wirfoddol	1 i 3	Y/GW
Cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr	1 i 3	RhL
Cynrychiolwyr o'r gymuned leol	Hyd at 3	CYM/L

Dyddiadau cyfarfodydd a phresenoldeb

	Dyddiad	Nifer yr Aelodau Fforwm a oedd yn bresennol - fesul categori
Cyfarfod cyntaf	21.04.2016	12 1 x RhL 1 x Y/S 2 x Y/CG 1 x C 3 x ALI 1 x CYM/L 1 x Yr Eglwys yng Nghymru 2 x Cynrychiolwyr eraill ar ran yr ALI

<p style="text-align: center;">Ail gyfarfod</p>	<p style="text-align: center;">01.11.2016</p>	<p>12</p> <p>1 x Y/S 1 x Y/CG 1 x C 5 x ALI 1 x Yr Eglwys yng Nghymru 2 x Cynrychiolwyr eraill ar ran yr ALI 1 x Y/GW</p>
<p style="text-align: center;">Trydydd cyfarfod</p>	<p style="text-align: center;">06/04/2017</p>	<p>12</p> <p>1 x Y/S 2 x Y/CG 1 x C 4 x ALI 1 x Yr Eglwys yng Nghymru 2 x Cynrychiolwyr eraill ar ran yr ALI 1 x RhL</p>

Cadarnhewch a yw awdurdodau derbyn yn ardal y fforwm wedi cwblhau'r ymgynghoriad a phenderfynu ar broses drefniadau derbyn o fewn yr amserlen sy'n ofynnol gan Reoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 [gan gynnwys ymgynghori ar y trefniadau erbyn 1 Mawrth yn y flwyddyn benderfynu a phenderfynu ar y trefniadau terfynol erbyn 15 Ebrill y flwyddyn honno].

Os oes unrhyw awdurdod derbyn heb gadw at yr amserlenni, rhowch fanylion yma.

Sawl dogfen ymgynghori ydych chi wedi'u gweld gan awdurdodau derbyn (ac eithrio rhai awdurdodau lleol eraill)?

Ymgynghorwyd ag Ysgol a Gynorthwyr yn Wirfoddol Yr Holl Saint Gresffordd, Ysgol y Santes Fair Owrtyn, Ysgol y Santes Fair Rhiwabon ac Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair o fewn y terfynau amser.

Cyflwynodd pob ysgol a gynorthwyr / ysgol sefydledig eu polisiau derbyn i'r Awdurdod Lleol mewn pryd i'w cynnwys yn y Canllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg yn Wrecsam 2018/2019.

Pa drefniadau derbyn sydd wedi'u rhoi ar waith i ofalu am fuddiannau plant diamddiffyn?

A ydynt wedi bod yn llwyddiannus?

Pa drefniadau eraill ydych chi wedi'u nodi er mwyn cefnogi'r plant hyn?

Er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion plant diamddiffyn yn y broses dderbyn, mae nifer o swyddogion allweddol yn cydweithio'n agos gyda staff yr Adran Derbyniadau. Pan fo gan ddisgyblion Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), bydd Swyddogion AAA perthnasol yn gweithio gyda'r Adran Derbyniadau i roi gwybod iddynt am leoliadau tebygol a allai fod yn wahanol i'w hysgol prif ffrwd leol. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer y disgyblion hynny sy'n debygol o fynychu ysgol arbennig neu ddarpariaeth ag adnoddau o fewn ysgol brif ffrwd.

Mae'r Tîm Derbyniadau wedi mynychu nosweithiau agored ysgolion a chynnal sesiynau 'galw heibio' yn Galw Wrecsam drwy gydol y broses dderbyn. Gall ysgolion hefyd nodi disgyblion nad ydynt wedi ymgeisio yn defnyddio porth 'PRIME', mae hyn yn galluogi i'r Tîm Derbyniadau gynorthwyo teuluoedd sy'n cael trafferth gyda'r broses o wneud cais cyn y dyddiad cau.

Diwallir anghenion Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG), neu'n arfer derbyn gofal, gyda chefnogaeth gan Gydlynnydd Addysg PDG sy'n cysylltu gyda'r Tîm Derbyniadau ac yn sicrhau y caiff eu statws PDG ei adlewyrchu yn y broses dderbyn, gan sicrhau eu bod yn derbyn y flaenoriaeth uchaf dan y meini prawf gordanysgrifio.

Mae'r Tim Derbyniadau yn gweithio'n agos gyda Swyddog Amrywiaeth Cymuned Wrecsam a'r Groes Goch Brydeinig wrth ddiogelu lleoedd ysgol ar gyfer plant ffoaduriaid fel rhan o 'Gynllun Adleoli Pobl Ddiamddiffyn'. Cefnogir disgyblion sydd â Saesneg fel iaith Ychwanegol (SIY) ymhellach gan y Gwasanaeth SIY. Mae hyn yn sicrhau mynediad esmwyth i'r ysgol ar gyfer disgyblion SIY, gan wneud yn siŵr bod y teulu a'r ysgol yn gwbl barod i'w derbyn a'u cefnogi yn dilyn hynny.

Yn ogystal, bydd staff o'r Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad ac Addysg Teithwyr yn cefnogi disgyblion wrth gael eu derbyn neu wrth drosglwyddo rhwng ysgolion pan fo hynny'n briodol. Mae'r Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg hefyd yn gweithio gyda'r tîm derbyn i sicrhau y cynorthwyir disgyblion diamddiffyn (a'u teuluoedd) drwy'r broses dderbyn.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dilyn y canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru 'Defnydd Effeithiol o Symudiadau wedi'u Rheoli'. Dogfen Wybodaeth Rhif: 096/2011 (darperir dolen ati isod).

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/110301effectiveen.pdf> ;

Pa mor dda y mae'r gweithdrefnau derbyn y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn wedi gweithio?

Faint o blant sydd wedi cael eu derbyn i bob ysgol dan y gweithdrefnau?

Ydych chi wedi gweld cynnydd yn nifer y derbyniadau yn ystod y flwyddyn ac, os felly, pa gamau a nodwyd i fynd i'r afael â'r mater hwn?

Mae Wrecsam wedi cytuno ar weithdrefn ar gyfer newid ysgol yng nghanol cyfnod, a'r ALI yw pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob cais o'r fath yn y sir.

Mae'r broses bresennol yn galluogi'r Tîm Derbyniadau i sicrhau bod y gronfa ddata ganolog ar gyfer data disgyblion yn cael ei diweddarau, ac yn gymorth i adnabod plant 'diamddiffyn' yn gynt.

Yn ogystal, cytunwyd ar ganllawiau ar gyfer ymdrin â cheisiadau trosglwyddo mwy cymhleth ac anodd, yn enwedig ym mlynnyddoedd 10/11 oherwydd ystyrir bod y blynnyddoedd hyn yn gwrs 2 flynedd; gallai ceisiadau i drosglwyddo i ysgolion eraill yn Wrecsam, ar ôl Blwyddyn 9, gael effaith negyddol ar gynnydd academaidd disgyblion ac felly nid yw'r ALI yn ystyried eu bod yn briodol.

Cynghorir rhieni y dylid symud ysgolion ar ddechrau tymor, oni bai bod y teulu yn symud tŷ neu dan amgylchiadau eithriadol. Fe argymhellir hyn er mwyn peidio â tharfu gormod ar addysg y dysgwr dan sylw ac addysg disgyblion eraill.

Mae'r broses hon yn dal yn destun adolygiad ac mae'r holl wybodaeth berthnasol ar gael i rieni drwy brosbectws cyfansawdd yr ALI. Defnyddir meddalwedd 'In Year' CAPITA Admission & Transfer (A&T) i gofnodi trosglwyddiadau canol cyfnod.

Gweler y daenlen (*Atodiad 1*) sy'n amlinellu trosglwyddiadau canol cyfnod ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/2017.

Mae nifer y trosglwyddiadau canol cyfnod wedi codi o 666 ym mlwyddyn academaidd 2015-2016 i 712 y flwyddyn academaidd hon, cynnydd o 7%.

Mae'r broses bresennol yn destun adolygiad i dynhau'r broses ymhellach ar gyfer ysgolion a'r ALI.

**Pa faterion mynediad allweddol sydd wedi'u nodi ar gyfer yr ardal?
Beth ydynt, a sut y mae'r fforwm yn mynd i'r afael â nhw?**

Geiriad Polisiau

Eglurhad ynghylch meini prawf oed ar gyfer cyswllt brawd neu chwaer yn Ysgol Maelor Llannerch Banna, wedi'i bwysleisio'n 11-16 gan fod ganddynt ddarpariaeth chweched dosbarth. Roedd hi'n anodd o'r blaen cymhwyso meini prawf gordanysgrifio os oedd rhieni wedi nodi brawd neu chwaer heb dderbyn cadarnhad o le yn y chweched dosbarth ar adeg cyflwyno'r cais.

Mynediad – Twf Ysgolion

Mae rhai ysgolion wedi gweld cynnydd sydyn yn nifer y ceisiadau yn ystod y cylch derbyn a throsglwyddiadau canol blwyddyn, oherwydd trefniadau dyrannu cyllideb ni ddarparwyd unrhyw gyllid ychwanegol ar ganol y flwyddyn ac felly bu i rai ysgolion ddatgan pryder. Mater wedi'i atgyfeirio at y Fforwm Cyllidebau Ysgolion.

Cynhwysiant

Mae darpariaeth gyfyngedig ar gyfer y galw cynyddol o fewn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Darpariaeth ag Adnoddau, ac felly mae angen cynllunio strategol ar lefel Trefniadaeth yr Ysgol.

Cynnydd yn nifer y disgyblion SIY sy'n dod i mewn i'r sir, 50 cais er mis Medi 2016. Mae'r pwysau hwn wedi'i gydnabod.

Addysg Cyfrwng Cymraeg - Cynradd

Mae'r galw yn parhau i gynyddu. Mae'r Tîm Derbyniadau wedi llwyddo i ddyrannu 98.2% o'r disgyblion i'w dewis ysgol cyntaf. Mae trefniadaeth ysgolion wedi'i gynllunio'n strategol drwy Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg ac Ysgolion yr 21ain ganrif.

Trosglwyddiadau Canol Blwyddyn

Mae'r nifer yn parhau i gynyddu ac mae'r effaith ar yr ysgol sy'n derbyn yn bryder ar lefel gynradd ac uwchradd, mae angen adolygu'r protocolau.

Mwy o geisiadau am le na'r lleoedd sydd ar gael

Er bod gennym ni ddigon o leoedd ar draws Wrecsam, mae yna nifer o faterion yn sgil poblogrwydd rhai ysgolion, gan arwain at fwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael a nifer o apeliadau yn dilyn gwrthod lle yn y dewis ysgol.

Darpariaeth Gynradd – Fel y manylir yn y data sydd ynghlwm

- Ffydd – Mae ysgolion cynradd ffydd yng nghanol y dref wedi derbyn mwy o geisiadau na nifer y lleoedd ar gyfer y dosbarth meithrin a derbyn
- Cymunedol – Mae ysgolion canol y dref wedi derbyn mwy o geisiadau na nifer y lleoedd ar gyfer y dosbarth meithrin a derbyn
- Cyfrwng Cymraeg - mae rhai ysgolion poblogaidd wedi derbyn mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael

Darpariaeth Uwchradd – Fel y manylir yn y data sydd ynghlwm

- Ffydd – Mae Ysgol Sant Joseff wedi derbyn mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael
- Cymunedol – Mae Ysgolion Darland a Grango wedi derbyn mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael
- Sefydledig – Maelor, Llannerch Banna wedi derbyn mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael

Mae rhai atebion wedi'u canfod drwy ailddatblygu ac estyn ble bo'n bosibl. Mae rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif a chynlluniau llai'r ALI yn parhau.

Ymgynghori

Mae dau ymgynghoriad ar y gweill, Dyffryn Ceiriog a chau chweched dosbarth Rhiwabon. Bydd y Fforwm yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ar ôl i'r penderfyniadau gael eu cadarnhau.

Pa ddulliau y mae'r Fforwm wedi'u defnyddio i ledaenu unrhyw gyngor neu benderfyniad y mae wedi'i wneud?

Amherthnasol

**Dyddiad y cyhoeddwyd cyngor y Fforwm ar wefan yr Awdurdod
Derbyn:**

Darparwch y ddolen berthnasol:

Llofnod: Bev Griffith (Ysgrifennydd y Fforwm)

Dyddiad: 30 Tachwedd 2017

Dychwelwch yr adroddiad wedi'i gwblhau erbyn 30 Tachwedd 2017 i:

SchoolsManagementDivision3@wales.gsi.gov.uk

Derbyniadau Ysgolion ac Apeliadau

Enw'r Ysgol	Nifer derbyn	Nifer y ceisiadau	Nifer y ceisiadau llwyddiannus	Nifer yr apeliadau	Nifer yr apeliadau llwyddiannus	Nifer yr apeliadau ar ôl 30 diwrnod	Nifer y dewisiadau cyntaf, ail neu drydydd a fodlonwyd
Cyfanswm							

